AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 254 Mehefin - Gorffennaf 2025

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



O ble y daeth y syniad? Efallai o glywed Cadeiryddion eraill yn sôn am gerdded rhwng cylchdeithiau yn eu taleithiau, gan wahodd pobl i ymuno ar y daith. Neu efallai o ddarllen am lwybrau pell sydd â chysylltiad â'r Eglwys Fethodistaidd, fel y 'Peak Wesley Way' yn Swydd Derby. Neu, yn syml iawn, meddwl bod angen rhywbeth i ddathlu bywyd ein Synod ddwyieithog wrth iddi gyflwyno tystiolaeth Fethodistaidd unedig i Gymru. Beth bynnag, mi gydiodd y syniad ynof o gysylltu Capel Pentre Llifior ger y Trallwng, ein capel hynaf Saesneg ei iaith yng nghanolbarth/gogledd Cymru, a Chapel Pendref, Dinbych sef ein capel Cymraeg hynaf mewn unrhyw le, trwy gyfrwng llwybr pell. Meddyliais am enw dwyieithog posib ar gyfer y llwybr, hefyd, sef Pererindod Pentre Llifior-Pendref Pilgrimage. Fel pob pregethwr, rwy'n hoffi cyflythrennu!







Soniais am y syniad yn fy nghyfarfod adolygu (Ministerial Development Review) y llynedd a ches fy annog i'w ddatblygu. Efo cymorth y gŵr, cynlluniais lwybr yn cychwyn ym Mhentre Llifior ac yn mynd trwy'r Trallwng, Four Crosses, Croesoswallt, Froncysyllte, Llandegla a Rhuthun, gan ddiweddu yng nghapel Pendref yn Ninbych. Roedd y ffordd yn gymysgedd o lwybrau camlas, lonydd, glannau afonydd a bryniau. Chwiliais am wythnos dawel i wneud y daith a phenderfynais mai Wythnos y Pasg fyddai'r amser gorau. Anfonais gyhoeddusrwydd at y cylchdeithiau, i wahodd pobl i ymuno â mi. Yna, ar ddiwedd Ebrill, dyna gerdded o gapel Pentre Llifior i gapel Pendref, Dinbych. Cefais gwmni nifer o bobl hyfryd yn ystod pedwar o'r saith diwrnod, ac roeddwn i ar fy mhen fy hun ar y tri arall. Roedd y tywydd yn berffaith (bron!) drwy'r wythnos.

Roedd tri nod i'r daith: fel pererindod; fel taith gerdded gweddi ac fel cyfraniad i brosiect Pwyllgor Galwedigaethau'r Synod eleni sef 'Anturiaethau Mewn Estyn Allan'. Mae rhywun wedi disgrifio pererindod fel 'encil cerdded' ond dydw i ddim yn siŵr am hynny. Does dim angen cerdded i fynd ar bererindod, ac i fi, mae gan encil elfen gref o unigedd. Mae pererindod yn fwy cymdeithasol, dwi'n meddwl. Dwi'n hoffi beth dywedodd un person doeth: fel ymwelydd, rydych yn mynd trwy lefydd; fel pererin, rydych yn caniatáu i lefydd (a'u pobl) fynd trwoch chi. Yn sicr, mae pererindod yn daith efo pwrpas, yn fwriadol, efo Duw. Roedd fy mhererindod am gysylltu'r ddau gapel yn symbolaidd, gan weddïo drostynt a thros waith y Synod, y cylchdeithiau a'r capeli, beth bynnag eu hiaith. Roedd yn offrwm o ddiolchgarwch i Dduw o gofio pa mor bell rydym ni wedi dod efo'n gilydd fel Synod.

Yn arbennig ar yr adegau pan oeddwn i'n cerdded ar fy mhen fy hunan, roedd yna ddigon o amser i weddïo ac i fyfyrio. Yn ôl fy arfer, dechreuais a gorffennais bob dydd efo gweddi, ond ceisiais i weddïo yn arbennig dros yr Eglwys yn ei chyfanrwydd, a thros Gymru yn arbennig. Ar hyd y ffordd, roedd digon o bobl a phethau yn awgrymu pethau imi weddïo drostynt – harddwch y cread yn symbylu gweddi dros yr amgylchedd; gweld gweithwyr Hafren Dyfrdwy yn peri imi ddiolch am ddŵr glân, a chofio am y rhai sydd heb ddŵr; cyfarfod bois y lori biniau yn gwneud imi fod eisiau gweddïo drostyn nhw a gwaith y Cyngor. Cofiais bob dydd am y rhai fu'n cyd-deithio â mi neu a ddangosodd ddiddordeb yn y bererindod. Roedd eu cefnogaeth yn werthfawr iawn. Mae gweddïo yn sgwrs efo Duw, dw i'n credu, ac roedd o'n gyfle i mi dderbyn un neu ddau o fewnwelediadau ffres, ac i dderbyn cadarnhad o wers ysbrydol bwysig a ddysgais yn ddiweddar. (Gwers y bydd yn rhaid imi ei hail-ddysgu hyd fy marwolaeth, dwi'n ofni!) Roedd yna gyfleoedd i ganu ac i weddïo efo'r rhai a oedd yn cerdded efo fi, a hynny'n beth hyfryd. Roedd yn braf cael cymaint o amser i dreulio efo Duw mewn ffordd ystyriol.





Ac yn drydydd, roedd y bererindod yn Anturiaeth Mewn Estyn Allan, ymhlith anturiaethau eraill sy'n digwydd ym mywyd y Synod eleni. Dwi'n hoffi sgwrsio efo pobl dwi'n eu cyfarfod wrth gerdded, a dywedais y buaswn i'n gorffen pob sgwrs drwy gynnig cofio amdanynt yn fy ngweddïau yn yr hwyr, a phetaent yn ymateb yn bositif, buaswn i'n cynnig cerdyn efo geiriau bendith a chyfeiriad gwefan y Synod arno iddyn nhw. Weithiau, mi wnes i anghofio, ac weithiau doedd neb arall o gwmpas beth bynnag; ond synnais pa mor fodlon oedd pobl i dderbyn y cynnig, a diolch fo i Dduw!

Mae disgrifio bywyd fel siwrnai wedi dod yn dipyn bach o ystrydeb, ond mae pob ystrydeb yn cynnwys gwirionedd. Ar eich pererindod chi drwy fywyd, boed i chi gerdded efo Duw a mwynhau ei gwmni a chwmni pobl eraill. Mae gan Dduw bethau newydd o hyd i'w dangos i ni ar hyd ein taith.





# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN CYMRAEG YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 254**
**MEHEFIN – GORFFENNAF 2025**

**Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"**

**(NID "i'r Gwyliedydd" os gwelwch yn dda)**

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**




**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@gmail.com



**DYDDIAD CAU**
10 GORFFENNAF 2025


Llun y clawr: Goleudy Ynys Lawd gan Thomas Lukassek


Dyluniwyd gan Ffrwd Cyfyngedig
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa


# Diolch



**Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*. Diolch yn arbennig i Bwyllgor Dydd Gweddi'r Byd am eu cefnogaeth hael unwaith eto.**

| | |
|---|---|
| Valerie Williams, Pwllheli | £ 20-00 |
| Dewi Evans, Aberdaron | £ 40-00 |
| Elwyn Ashford Jones, Pwllglas | £ 30-00 |
| Buddug Jones, Cwmlline | £ 10-00 |
| Gareth ac Eirian Williams, Llanfairpwll | £ 20-00 |
| Cyn-aelodau Soar, Tre'rddol | £ 25-00 |
| Seion, Llanrhaeadr ym Mochnant | £100-00 |
| Dienw | £ 25-00 |
| Dienw | £ 20-00 |
| Dienw | £ 20-00 |
| Ceri Dart ac Olwen Williams | £ 15-00 |
| Dydd Gweddi'r Byd | £600-00 |
| **Cyfanswm** | **£925-00** |



## Y Gynhadledd Fethodistaidd

Cynhelir y Gynhadledd eleni yn Telford rhwng 26 Mehefin a 2 Gorffennaf a'r Llywydd a'r Is-lywydd am y flwyddyn nesaf fydd y Parchg Richard Andrew a Mr Matthew Forsyth. Mae sesiynau'r Gynhadledd yn cael eu ffrydio'n fyw – ewch i wefan yr Eglwys Fethodistaidd i gael manylion.

## CAPEL SARON, BETHEL, ARFON 1856–2025

Ar ddydd Sul, Gorffennaf 27ain, cynhelir gwasanaeth i ddod â'r Achos i ben ac i ddiolch am dystiolaeth Capel Saron dros yr holl flynyddoedd. Bydd oedfa arbennig yn Saron am 2-00 o'r gloch dan ofal y Parchedig Philip Barnett (cyn weinidog). Yna am 6-30 o'r gloch yng Nghapel Cysegr, Bethel, bydd Cymanfa Ganu. Arweinydd: Annette Bryn Parri; Organydd: Deilwen Hughes; Unawdydd: Huw Llywelyn, Tenor; Côr Law yn Llaw, Arweinydd: Anwen Edwards. Cyflwynir holl gasgliadau/rhoddion y dydd i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd drwy law y Côr. Croeso cynnes i bawb.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## *Salem, Rhyd y Foel*



### PEN-BLWYDD
Fe ddathlodd Kathleen Williams, ein haelod hynaf, ei phen-blwydd yn 94 oed ar Fawrth 22ain. Ar ôl yr oedfa fore Sul Mawrth 23ain cafwyd paned a chacen pen-blwydd i ddathlu'r achlysur.

### LLWYDDIANT
Mae'n bleser mawr llongyfarch ein hieuenctid ar eu llwyddiant mewn gwahanol feysydd. Enillodd Mali Faith ddwy Fedal Aur yn ei grŵp mewn gornest Jiwdo, a'i brawd mawr Matthew Fedal Arian yn ei grŵp yntau. Bu Mali Grug yn llwyddiannus mewn nifer o gystadlaethau yn Eisteddfod yr Urdd a dymunwn bob llwyddiant iddi yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Enillodd Mali hefyd gwpan arbennig yn Eisteddfod Calan Mai Betws yn Rhos – dyma ei llun gyda'i nain, Catherine Blythin.





### SUL Y BLODAU
Cafwyd oedfa amserol a phriodol o dan arweiniad Catherine fore Sul y Blodau a chymerwyd rhan gan yr ieuenctid a'u rhieni. Gwasanaeth arbennig iawn. Cawsom baned a chacennau hyfryd wedi'u pobi gan Nia yn y festri ar derfyn yr oedfa.

### SWYDD NEWYDD
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Beth Megan Roberts, wyres Ieuan a Siân Price, ar gwblhau ei hyfforddiant yng Nghaerdydd a chael ei phenodi'n athrawes yn Nhregarth.

### GWASANAETH DAN OFAL Y MERCHED
Ddydd Sul Mawrth 30ain roedd y gwasanaeth o dan ofal y merched gan ddefnyddio deunydd Dydd Gweddi'r Byd Merched Slofenia. Cymerwyd rhan yn rhagorol gan un o'n hieuenctid sef Mari Wyn. Mae hi a'i chwaer fach Cadi Wyn yn gyfrifol am dderbyn yr offrwm yn wythnosol a Cadi yn gyfrifol ar derfyn yr oedfa am gadw cardiau rhifau'r emynau yn eu llefydd priodol yn y blwch. Braf iawn oedd cael cwmni rhai o aelodau Hyfrydle, Betws yn Rhos yn y gwasanaeth.

### GWELLHAD BUAN
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Jay Preece sef priod Anna a thad Mari a Cadi. Bu i Jay ddioddef damwain pan oedd yn gweithio yng Nghaeredin ychydig wythnosau yn ôl.

**GOHEBYDD . SIÂN PRICE**

## *Bethel, Rhiwbeina*

### DYMUNIADAU GORAU
Mae'n braf cael croesawu ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan yn ôl i'n plith wedi cyfnod o salwch. Dymunwn iechyd da iddo yn y dyfodol. Roeddem yn falch iawn o glywed bod Rayanne James hithau yn gwella wedi llawdriniaeth yn ddiweddar. Dymunwn adferiad buan iddi ac anfonwn ein cofion yn ogystal at aelodau ffyddlon eraill sy'n methu bod gyda ni ar hyn o bryd oherwydd anhwylder.

### DATHLU'R PASG
Yn ystod mis Ebrill cawsom gyfle i fwynhau pryd o fwyd gyda'n gilydd mewn bwyty lleol, i ddathlu'r Pasg a'r Gwanwyn.



### DYDD GWEDDI
Diolch i Rosina Davies a Carol O'Donnell am gynrychioli Bethel yn y gwasanaeth yn yr Eglwys Newydd ar Ddydd Gweddi'r Byd. Daeth nifer dda ynghyd o gapeli Cymraeg y ddinas.

### YR YSGOL SUL
Braf yw gweld cynifer o blant yn dod i'r Ysgol Sul. Cynhelir yr Ysgol Sul nesaf ar Fehefin 22.



### PEN-BLWYDD HAPUS
Dymuniadau gorau i Mair Jenkins sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig.

### OEDFAON
Da oedd cael croesawu i'r pulpud ym mis Ebrill y Parchedig Robin Samuel a Mr Marc John Williams. Ar Sul y Blodau roedd y gwasanaeth yng ngofal ein gweinidog ac ar Sul y Pasg yn ôl ein harfer fe wnaethom ymuno ag aelodau Salem, Treganna.

**GOHEBYDD . GWENDA FRANCIS**

## *Preswylfa, Cyffordd Llandudno*

### GWELLHAD BUAN
Anfonwn ein cofion cynhesaf fel Eglwys at Gordon Evans sydd wedi bod yn yr ysbyty. Efallai fod rhai o ddarllenwyr y *Gwyliedydd* wedi gweld ei gyfweliad ar raglen 'Ysbyty' S4C yn ddiweddar. Gwellhad buan i chi, Gordon.

### PEN-BLWYDD HAPUS
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Jane Jones ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn, yn 90 oed ddechrau Mai.

### Y PASG
Cynhaliwyd oedfa undebol Eglwysi Rhyddion y Gyffordd ym Mhreswylfa ar fore dydd Gwener y Groglith, o dan ofal ein gweinidog y Parchg Marc Morgan, pryd y gweinyddwyd y Cymun Sanctaidd.

### CYDYMDEIMLO
Rydym fel Eglwys yn anfon ein cofion dwysaf at deuluoedd y diweddar Eirwen Evans-Jones a Gwyneth Williams, y ddwy wedi bod yn aelodau ym Mhreswylfa. Bydd colled fawr ar eu hôl.

### PERERINDOD
Fe wnaeth pedair o ferched Preswylfa sef Llinos, Carys, Barbara a Nia ymuno â'r Parchedig Jennie Hurd ar ddiwrnod olaf ei phererindod ar ôl y Pasg. Taith o ryw 8 milltir a hanner oedd hi o gapel Bathafarn, Rhuthun i gapel Pendref, Dinbych. Roedd saith ohonom i gyd ar y siwrne a chawsom gyfle i sgwrsio, myfyrio, cael cinio a hel atgofion. Diolch yn fawr i gyfeillion Pendref am y lluniaeth ar ôl gorffen y daith – roeddem i gyd yn edrych ymlaen at y baned a'r cacennau! Diolch, Jennie, am y cyfle i ddod gyda chi.



### TŶ MAWR WYBRNANT
Ar fore Sul Mai 4ydd, aeth Llinos, Carys, Barbara a'i chwaer Marion ar daith gerdded arbennig o gwmpas Tŷ Mawr Wybrnant, Penmachno yng nghwmni'r actorion Llion Williams, Mair Tomos Ifans, Mirain Fflur a Tudur Phillips, a ddaeth â chymeriadau llên gwerin yr ardal yn ôl yn fyw. Roeddem yn ffodus i gael gweld copi o Feibl gwreiddiol yr Esgob William Morgan. Bydd y tŷ ar agor bob dydd Sul gydag ystafell yr arddangosfa yn ailagor yn ystod hanner tymor mis Mai. Mae'n werth mynd



yno i weld yr holl Feiblau o wahanol wledydd sydd wedi cael eu rhoi i'r Tŷ Mawr a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

**GOHEBYDD . LLINOS GARSTANG**

# COFIO EDWARD JONES, BATHAFARN

gan Robin Jones




Ar brynhawn heulog, braf ym mis Mai daeth criw ohonom i fynwent Eglwys Sant Meugan, Llanrhydd, Rhuthun. Dyna lle mae carreg fedd Edward Jones yn awr wedi'i gosod, yn gofeb deilwng i'r un a adwaenir yn aml fel 'tad Wesleaeth Gymraeg'. Fel y mae'r arysgrif ar y garreg yn nodi, bu farw Edward Jones yn Leek, Swydd Stafford ond wedi i'r capel yno gael ei ddymchwel daethpwyd â'r garreg i'w fro enedigol. Gosodwyd hi'n wreiddiol y tu allan i gapel Bathafarn yn nhref Rhuthun. Gan nad yw'r capel hwnnw'n cael ei ddefnyddio mwyach, cafodd gartref yn awr mewn llecyn hyfryd nid nepell o ffermdy Bathafarn.

Hoffai Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd ddiolch o galon i'r Parchedig Luke Bristow a chyfeillion Llanrhydd am ganiatáu inni osod y garreg fedd yno. Diolch yn fawr iawn hefyd i Roisin Davies a Buckley Memorials am eu gwaith trylwyr a medrus.

Cafwyd croeso gan Elizabeth Jones, Arweinydd Ardal Bathafarn, ac araith fer gan Robin Jones, Llywydd y Gymdeithas Hanes. Canwyd 'Newyddion braf a ddaeth i'n bro', emyn sydd â chysylltiad cryf â dechreuadau Wesleaeth yn y fro, gan Eirlys Dwyryd a Myron Lloyd.



## Dyma ychydig o hanes Edward Jones, Bathafarn (1778-1837).

(Ffynhonnell: *Hanes Wesleyaeth Gymreig* gan Hugh Jones).

Edward oedd yr hynaf o bump o blant a anwyd i Edward ac Ann Jones, pobl fusnes llwyddiannus iawn. Roeddynt yn ffermio fferm Bathafarn yn ogystal â rhedeg busnes groser llewyrchus yn nhref Rhuthun. Roeddynt hefyd yn Eglwyswyr pybyr, a byddent fel teulu yn mynychu'r holl oedfaon yn ffyddlon a di-feth. Yn uchel eu parch yn yr Eglwys ac yn y gymdogaeth, ystyrid hwy yn ddigon pwysig i gael eu claddu o dan lawr Eglwys Sant Meugan, yn agos i'r pulpud – Edward yn y flwyddyn 1807 yn 70 oed, ac Ann yn 1817 yn 77 oed.

Doedd gan Edward, y mab, ddim diddordeb mewn bod yn rhan o fusnes mawr ei rieni, ac yn 1796 pan oedd yn ddeunaw oed cafwyd lle iddo ym Manceinion i ddysgu am gyfleoedd yn y diwydiant cotwm. Pellhaodd oddi wrth Eglwys Loegr ac ymlynodd fwy wrth y capeli. Ei hoff gapel oedd capel y Wesleaid, Oldham Street, capel bywiog a llawn bwrlwm. Yno, clywai bregethu grymus (yn Saesneg, wrth gwrs). Yn y capel yma un nos Sul tra'n gwrando ar y Parchedig George Marsden yn pregethu y cafodd Edward ei achub, meddai o, a chael ei droi yn 'greadur newydd.' Dyna drobwynt mawr ei fywyd.








Cafodd Edward neges un diwrnod yn dweud fod brawd iddo wedi marw, a chan fod ei rieni bellach yn oedrannus a than bwysau mawr gyda'u holl gyfrifoldebau, penderfynodd gefnu ar Fanceinion a throi ei wyneb yn ôl am Fathafarn i helpu gyda'r gwaith.

Anodd iawn oedd gadael Manceinion, ac anoddach fyth oedd cefnu ar gapel y Wesleaid, Oldham Street, y pregethu a'i holl ffrindiau. Penderfynodd ddod â Wesleaeth gydag o yn ôl i Gymru, beth bynnag fyddai'r gost iddo.

Felly, yn ôl i Gymru y daeth Edward Jones, a dechrau ar ei waith mawr drwy bregethu'r Efengyl a chynnal Cyfarfodydd Gweddïo, a hynny yn iaith y bobl. Gwnâi hyn yn wyneb erledigaeth a phob math o rwystrau a gwrthwynebiadau gan unigolion ac enwadau eraill. Cafodd ei gyhuddo sawl tro o bregethu heb hawl, ac fe'i dygwyd o flaen ynadon fwy nag unwaith. Yn waeth na dim, roedd ei dad a'i fam, yr Eglwyswyr pybyr, yn gwrthwynebu yr hyn a wnâi, a chafodd ei fygwth sawl tro y byddai drws Bathafarn dan glo iddo os na allai roi i fyny



ei gysylltiad gyda'r enwad newydd hwn. Dal ati a wnaeth, fodd bynnag, yn wyneb yr holl rwystrau, ac o dipyn i beth dros amser daeth pethau'n well, a daeth ei fam a'i ddwy chwaer hyd yn oed i gefnogi yr hyn roedd Edward yn ceisio'i wneud.

Galwyd Edward Jones i waith rheolaidd y Weinidogaeth yn y flwyddyn 1800 ac yntau'n 22 oed, a bu'n llafurio yn Rhuthun, Caernarfon, Machynlleth, Aberystwyth, Llandeilo, Caerfyrddin, Castell Nedd, Abertawe a Chaerdydd. Roedd wedi ymroi yn llwyr i'w waith ym mhob ystyr. Doedd dim modd i'r Achos lwyddo heb gapeli, a doedd dim modd cael capeli heb arian, a dywedir ei fod wedi gwario miloedd o bunnau o'i boced ei hun i helpu ymddiriedolwyr sawl capel i barhau.

Yn y flwyddyn 1817 daeth dwy ergyd i ran Edward Jones. Yn gyntaf, bu farw ei fam, ac yna cafodd rybudd gan y Gynhadledd ei fod o a sawl un arall i symud i'r gwaith Saesneg am nad oedd modd parhau i roi'r cymorth arferol i gynnal yr Achos yng Nghymru. Roedd hyn yn loes mawr iddo ond gyda'r Saeson y bu'n llafurio wedyn, yn Dewsbury, Durham, Wrecsam, Hwlffordd gan ddarfod yn Leek, Swydd Stafford.

Yn y flwyddyn 1836 yr aeth Edward Jones yn weinidog i Leek, ond byr fu ei weinidogaeth yno oherwydd ddiwedd y flwyddyn honno fe syrthiodd oddi ar gwch wrth ddod i'r lan yn Lerpwl, a chafodd ei niweidio'n ddrwg. Ni weithiodd ar ôl hynny, a bu farw 26 Awst, 1837 yn 59 mlwydd oed.

Agorwyd capel Bathafarn, Rhuthun er cof am Edward Jones 32 o flynyddoedd wedi iddo farw, ac un o'r rhai a gymerai ran yn y gwasanaeth oedd John Evans, Eglwysbach. Ar gofeb iddo yn y capel rhoddwyd y geiriau 'CYSYGREDIG I GOFFADWRIAETH

Y Parch. Edward Jones, Bathafarn. Efe a fu y prif offeryn i ddod â Trefnyddiaeth Wesleaidd yn iaith y bobl i Gymru ar ôl bod yn pryderu yn 'agos i angau' am weled hynny yn cymryd lle. Yr oedd yn ddyn sanctaidd, yn Efengylydd pur, yn weinidog llwyddiannus a llawer o bobl a ychwanegwyd i'r Arglwydd trwyddo.' Ac ychwanegodd Dr Hugh Jones:'Y mae dy enw yn werthfawr ac annwyl i ni, ond mae dy enw yn uwch yng nghyfrif Duw a'r nef. Y mae daear a nef, dynion a Duw am anrhydeddu mab Bathafarn.'

## Pendref, Dinbych

### OEDFAON

Yn ystod Mawrth ac Ebrill cawsom gyfle i groesawu ein gweinidog y Parchg Marc Morgan, Owie Morris, Hugh Vaughan Jones, Yr Hybarch Bernard Thomas, Royce Warner a Dilwyn Jones a mawr yw ein diolch iddynt oll am eu gwasanaeth. Unwaith eto eleni cawsom gyfle i gynnal oedfa Gymun bore dydd Gwener y Groglith dan ofal ein gweinidog. Mae'r oedfa arbennig yma wedi bod yn draddodiad ym Mhendref ers canrif a mwy. Mawr yw ein diolch i gyfeillion Dinbych am eu cefnogaeth yn y gwasanaeth hyfryd ac amserol yma. Blaenor mis Mawrth oedd Elfed Evans gyda Sheila Thomas yn gofalu am fis Ebrill. Diolch i Vera Savage a Gwyn Williams am eu gwasanaeth yn cyfeilio ac arwain y gân.




### PERERINION

Pnawn dydd Sadwrn Ebrill 26ain cawsom y fraint o groesawu'r Parchg Ddr Jennie Hurd a'i chyd-deithwyr ar ddiwedd ei phererindod o Bentre Llifior i Bendref. Daeth nifer o aelodau'r capel i'w croesawu gan drefnu paned a lluniaeth ysgafn.

### CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn yn ddwys â Janet Evans a'r teulu ar golli ei thad Maldwyn Roberts ar drothwy ei ben-blwydd yn 95 oed. Bu Maldwyn a'i briod Brenda yn aelodau gwerthfawr yma ym Mhendref cyn iddynt symud i fyw o'r dref. Roedd Maldwyn yn flaenor ac yn un o arweinyddion y gân. Trydanwr wrth ei alwedigaeth a phob tro yn barod ei gymwynas inni fel Eglwys. Bu'r gwasanaeth dan ofal y Parchg Brian Huw Jones yma ym Mhendref ar Fai 13eg.

**GOHEBYDD . MARY JONES**

## Tabernacl, Llanfyllin

### DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL

Daeth cynulleidfa dda o gantorion o'r ardal ynghyd i recordio canu mawl ar gyfer rhaglen arbennig Sul y Blodau. Roedd yn brofiad pleserus iawn bod yn rhan o'r gynulleidfa, gyda Iona Jones yn arwain mor ddeheuig a phawb yn mwynhau canu'r emynau. Fe ddaw rhaglen arall o Lanfyllin allan ar adeg Diolchgarwch am y Cynhaeaf.

### SUL Y PASG

I ddathlu Sul y Pasg, cynhaliwyd oedfa deuluol yn y Tabernacl, gyda Christnogion o bob oed yn cymryd rhan. Cafwyd eitemau cerddorol gan Llinos ac Eos Jones a hefyd gan Guto Tomlinson a Huw Roberts. Llywela Roberts oedd wrth yr organ.

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Rhys Jenkins, Stud Farm a Louise Bebb o'r Amwythig ar eu dyweddïad. Dymuniadau gorau iddynt.

### GWEITHREDU DROS BLANT

Eleni eto, fe gafodd y cyhoedd siawns i grwydro drwy Goed Caeaugwynedd, drwy garedigrwydd y perchennog, Mr Keith Blacker. Roedd yn brynhawn hyfryd i gael arogli clychau'r gog, clywed ambell aderyn, gweld coed arbennig a blasu cacennau yng nghwmni cyfeillion. Codwyd £350 i Gweithredu dros Blant.

### GWELLHAD BUAN

Yn dilyn codwm yn ei chartref, mae Miss Rhoswen Charles, Bwlchyddar, yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau ati.

### CYMORTH CRISTNOGOL

Cynhaliwyd oedfa Cymorth Cristnogol yn Eglwys Sant Myllin eleni, dan arweiniad y Parchg Hermione Morris. Ymunodd aelodau o'r Tabernacl a Phendref yn y gwasanaeth gyda rhai ohonynt yn cymryd rhan.

### CANU MAWL

Ar nos Sul hyfryd o Fai daeth aelodau o Ofalaeth Bro Tanat Cain ynghyd i ganu mawl yng nghapel Sardis, Llanwddyn. Roedd aelod o bob capel yn cael dewis emyn gan greu rhaglen amrywiol o emynau cyfarwydd. Miss Charles ddewisodd yr emyn dros gapel y Tabernacl a'i dewis oedd "Mae Duw yn llond pob lle, presennol ymhob man", emyn sydd wedi bod yn ei meddwl yn aml yn ystod y misoedd diwethaf. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchg Gwyndaf Richards a'r organydd oedd Mrs Margaret Davies, Llanwddyn.

**GOHEBYDD . ALWENA FRANCIS**

## Ardal Bathafarn

### OEDFAON

Daeth cynulliad da o gyfeillion capeli tref Rhuthun i oedfa'r Cymun Sanctaidd ar Ddydd Gŵyl Dewi. Cafwyd anerchiad pwrpasol ac anfonwyd y casgliad hael o £100 at Ofal Dydd y Waen sydd yn gwneud gwaith mor arbennig.

Tro cyfeillion Heol y Parc oedd hi i'n croesawu i wasanaeth Dydd Gweddi'r Byd, a baratowyd eleni gan ferched Cristnogol Ynysoedd Cook gyda'r thema 'Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol'. Lucy ac Elizabeth a gymerodd ran o Fathafarn. Cafwyd gair i'n cyfarch gan Hazel a'r cyfeilydd oedd Gwylan. Mae'n wefreiddiol fod trigolion gwledydd y byd yn dod at ei gilydd drwy'r gwasanaeth hwn, pawb yn ei iaith ei hun. Casglwyd £120 gan gynnwys rhodd o Bendref, Rhuthun. Llawer o ddiolch i bawb am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth.

Cynhaliwyd oedfaon yn yr Ardal hefyd dan ofal Hedd ap Emlyn, Llinos Mary Jones a'r Parchedig Marc Morgan. Ar Sul y Blodau cafwyd gwasanaeth hyfryd dan ofal y Parchedig Jennie Hurd a'r thema oedd pwysigrwydd y gair 'bendigedig'. Gweinyddwyd y Cymun Sanctaidd a rhannwyd dail y palmwydd i bawb. Hyfryd oedd cael cwmni rhai o breswylwyr Llys Awelon. Y llywydd oedd Rhodri a Rhian oedd yn cyfeilio. Cafwyd oedfa hefyd yng Nglyndyfrdwy. Cynhaliwyd Oedfa Sul y Pasg dan ofal Elizabeth a da oedd i ni ddod at ein gilydd i ddathlu Atgyfodiad Crist.

### CYDYMDEIMLO

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Delyth a Wendy o golli modryb annwyl sef Iona, Green Park gynt, aelod o deulu a fu'n ffyddlon ym Mathafarn. Hefyd at Gwen Davies, cyn-ofalwraig Rehoboth, Corwen, o golli ei phriod sef Gary Davies; at Helen Lloyd a Cheryl a'i phriod o golli Ray sef priod a thad annwyl; ac at deulu'r ddiweddar Glenys Parry, Llanbedrog gynt, hwythau wedi bod yn ffyddlon i oedfaon Llys Awelon. Meddwl amdanoch yn eich hiraeth am anwyliaid.

### DYMUNO'N DDA

Llongyfarchiadau calonnog i Enid Edwards, Glyndyfrdwy, ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn 80 oed. Pob bendith a hapusrwydd iddi a dymuniadau gorau iddi hi a'i phriod Hywel yn eu cartref newydd yn Hafan Gwydir, Llanrwst. Llawer o ddiolch iddynt am eu ffyddlondeb a'u gweithgarwch am flynyddoedd lawer yng nghapel Glyndyfrdwy.

Dymuniadau gorau i Elgan Hughes sydd wedi dathlu'r deugain. Dymunwn yn dda hefyd i Lynne Hughes, Corwen, ar gael clun newydd. Da gweld Owain Davies wedi gwella yn dilyn anffawd. Gwellhad buan yn ogystal i Audrey Jones yn dilyn triniaethau yn Ysbyty Glan Clwyd a Broadgreen. Llongyfarchiadau calonnog i Audrey ar enedigaeth gorŵyr arall sef Moi, mab i Owain a Siân, Wern Ddu ac ŵyr i John ac Elin. Bendith fo arnoch i gyd.

### PERERINDOD JENNIE

Yn ystod yr wythnos ar ôl y Pasg aeth y Parchedig Ddr Jennie Hurd ar bererindod arbennig gan gerdded o eglwys Fethodistaidd Pentre Llifior i Bendref, Dinbych. Llongyfarchiadau, Jennie – campus iawn!

**GOHEBYDD . ELIZABETH JONES**


## Ebeneser, Dolgellau

### OFFRWM DIOLCHGARWCH

Ers rhai blynyddoedd bellach rydym wedi bod yn rhoi arian y Casgliad Diolchgarwch i dair elusen – un yn lleol, un yn genedlaethol ac un yn rhyngwladol. Yr elusennau a ddewiswyd eleni oedd "Lle'n y Dre", menter a ffurfiwyd rhyw 3 blynedd yn ôl i annog trigolion y dre a'r cylch i fanteisio ar y cyfle i gwrdd am baned, sgwrs a chwmni gwresog yn y Llyfrgell Rydd, "Railway Children UK", mudiad sy'n cefnogi plant agored i niwed ac UNICEF.

### COFIO ELUNED

Cynhaliwyd cyngerdd yn y capel ar nos Sadwrn 10fed Mai er cof am y Chwaer Eluned Williams a fu farw ychydig dros flwyddyn yn ôl. Croesawodd Menna Lloyd Jones nifer o drigolion Dolgellau, aelodau'r capel a theulu a ffrindiau Eluned i'r cyngerdd gydag amryw o dalentau lleol yn cymryd rhan yn ogystal â rhai o aelodau'r capel sef Kathleen Owen sy'n gantores arbennig, Alison Woodbridge, Frank Edge a Ruth Nicholls. Darllenwyd englynion coffa Tecwyn Owen, Dolgellau, i Eluned gan Liz, Jane a Beryl. Gwnaed elw o dros £500 i'w rannu rhwng Cymorth Cristnogol, Gweithredu dros Blant ac organ y capel.


Cyngerdd er cof am Eluned

Concert in Memory of Eluned

Dydd Sadwrn – Saturday
10-05-2025

Capel Ebeneser Chapel
Dolgellau

### CYDYMDEIMLO

Anfonwn ein cydymdeimlad at Dai Morgan sydd wedi colli ei frawd. Meddyliwn amdano a'r holl deulu yn eu colled.

### DYMUNIADAU GORAU

Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Mrs Pat King, un o'n horganyddion, sydd wedi cael pen-glin newydd yn ddiweddar.

**GOHEBYDD . BERYL NORGROVE**

## Ebeneser, Treuddyn

### TE PRYNHAWN

Ar ddydd Sadwrn, Ebrill 12fed, cynhaliwyd Te Prynhawn llwyddiannus yng Nghanolfan Hafan Deg, gyda'r elw yn mynd at waith cynnal a chadw'r capel. Diolch i'r aelodau a phawb wnaeth helpu mewn unrhyw ffordd a hefyd i drigolion yr ardal am ein cefnogi. Byddwn yn cynnal Te Prynhawn unwaith eto yng Nghanolfan Hafan Deg ar ddydd Sadwrn, Medi 13eg am 3 o'r gloch.

### RALI

Byddwn yn croesawu'r Parchedig Jeanette Wilkes i wasanaethu yn ein Rali ddwyieithog, a gynhelir ar nos Sul, Mehefin 8fed am 6 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y gwasanaeth yma.

### GWASANAETHAU

Edrychwn ymlaen at groesawu'r Parchedig Jennie Hurd atom unwaith eto ar nos Sul, Gorffennaf 27ain, am 6 yr hwyr. Edrychwn ymlaen hefyd at Gymanfa Ganu Undebol yr ardal sydd i'w chynnal yng nghapel Ebeneser am 6 yr hwyr nos Sul, Medi 28ain. Cofiwch nodi'r dyddiad ar eich calendr.

### Y GYMDEITHAS

Bydd y Gymdeithas yn dechrau unwaith eto nos Fawrth, Mai 13eg am 7 yr hwyr yn yr Ysgoldy dan ofal y Parchg Eirlys Gruffydd Evans. Dyddiadau'r rhai i ddilyn fydd nos Fawrth, Mehefin 10fed a Gorffennaf 8fed.

### DYMUNIADAU GORAU

Anfonwn ein dymuniadau da at bawb, yn enwedig y rhai nad ydynt yn mwynhau iechyd da ar hyn o bryd. Gobeithiwn y cewch adferiad buan.

**GOHEBYDD . GLENYS DAVIES**



# O'R PEN YMA



***gan Angharad Tomos***

Cawsom wasanaeth gwahanol yn ein capel y dydd o'r blaen. Yn niffyg pregethwr, gofynnwyd i wahanol aelodau ddweud gair, a daeth mam ifanc ymlaen ac adrodd hanes Moses yn cael ei ganfod yn yr hesg. Eisteddais yn ôl i wrando ar y stori gyfarwydd hon. Mae'n stori dda, ac rwy'n ei hoffi.

Mae'n siŵr mai rhyw chwech oed oeddwn i pan glywais y stori gyntaf, a hynny ym Meibl y Plant, o bosib. Cawn glywed am ferch y Pharo yn mynd at yr afon, ac yn canfod y babi bach mewn basged yn y brwyn. Y rhan rydw i yn ei hoffi yw pan oedd Miriam yn gwylio gerllaw – a phan ganfu merch Pharo y babi, daeth Miriam ymlaen a holi a oedd angen morwyn. Dywedodd ei bod yn gwybod am un o wragedd yr Hebreaid a fyddai'n magu'r plentyn, ac aeth â'r plentyn yn ôl at ei mam. Am syniad da! meddyliais, ac wedyn roedd y stori yn gorffen yn hapus gyda Moses yn dod yn arweinydd.

Dydw i ddim yn credu i mi feddwl fawr am fam Moses. Wedi'r cwbl, ei syniad hi oedd rhoi'r babi yn yr hesg. Ond y Sul hwnnw yn ein capel ni, dewisodd y fam ifanc ganolbwyntio ar fam Moses. Roedd hi mewn cyfyng gyngor dychrynllyd. Roedd Pharo wedi rhoi gorchymyn y câi'r babanod benywaidd fyw, ond roedd pob bachgen a aned i'r Hebreaid i gael ei daflu i'r afon. Marwolaeth sicr oedd yn aros Moses. Dyna ddaru arwain at syniad gwreiddiol y fam. Mae'r syniad o roi eich plentyn eich hun mewn basged a'i roi ar y dŵr yn syniad cwbl wallgof – oni bai eich bod yn sicr mai marwolaeth sy'n ei aros oni bai eich bod yn fodlon mentro.

Yna, mi soniodd y fam ifanc am gorff y plentyn bach a ganfyddwyd rai blynyddoedd yn ôl, plentyn un o'r ffoaduriaid ydoedd. Boddwyd y cwch, a daeth corff y plentyn bach i'r lan ar y traeth, a gwnaeth y stori argraff ar y byd. Alan Kurdi oedd enw'r plentyn teirblwydd, oedd yn ffoi o Syria. Bu farw ei frawd pum mlwydd oed hefyd. Gredwch chi fod deng mlynedd wedi mynd ers y digwyddiad? Osgoi rhyfel oedd y teulu, ond roedd sawl un yn gofyn, 'Pam mentro bywyd eich plant i wneud taith mor beryglus?' Dydych chi ddim yn gwneud y fath beth oni bai eich bod yn gwybod mai cael eu lladd yw'r dewis arall. Roedd mam Alan Kurdi yn yr union un sefyllfa â mam Moses.

Braf fyddai dweud fod stori Alan Kurdi wedi sobri pobl i'r fath raddau fel bod problem ffoaduriaid wedi gwella yn fawr, os nad ei dileu yn llwyr. Fel arall y bu. Mae casineb tuag at ffoaduriaid wedi lledu fel cancr mewn cymdeithas, gyda slogan mor hurt â 'Stop the boats' yn cael ei chymryd o ddifrif.

Mae stori Moses yn fabi yn yr hesg bellach yn stori sy'n fy sobri. Byddaf bellach yn cofio am fam Moses, a'i hofn. Byddaf yn meddwl am famau heddiw sy'n wynebu'r un cyfyng gyngor â hi. A byddaf yn cofio fod rhaid estyn croeso i bobl anghenus, a gwneud popeth a allaf i helpu ffoaduriaid. Wedi'r cwbl, petaen ni yn eu sefyllfa hwy, mor ddiolchgar fyddem ni o gael tipyn o gymorth, yn hytrach na gwg a chasineb.

# Geiriau unigryw

## gan **Dr Huw Tegid**

"Mae rhywun yn dysgu rhywbeth newydd bob dydd" yn ôl yr hen ddywediad. Mae hynny'n sicr yn wir yn fy ngwaith o ddydd i ddydd fel cyfieithydd. Yn dibynnu ar natur y sefydliad neu'r cwmni, mae cyfieithydd yn cael gweithio ar amrywiaeth eang iawn o destunau mewn blwyddyn, gyda chyfle i ddod i wybod mwy am bob math o feysydd. Yn amlach na pheidio, bydd rhywun yn siŵr o ddod o hyd i air na welodd o'r blaen, hefyd. Bydd hynny ynddo'i hunan yn tywys rhywun i lawr ambell 'dwll cwningen' (i ddefnyddio delwedd o gyfrol '*Alys yng Ngwlad Hud*' Lewis Carroll), ac yn fodd o ddysgu rhywbeth am gefndir ac ystyr y gair anghyfarwydd hwnnw.

Parodd hynny i mi feddwl y diwrnod o'r blaen am eiriau sy'n ymddangos unwaith, ac unwaith yn unig, yn y Beibl. Pan ddaeth hynny i'r meddwl, roeddwn i wedi tybio mai dyrnaid o eiriau o'r fath fyddai'n bodoli, ond yn annisgwyl, braidd, mae'n debyg nad yw geiriau o'r fath mor brin â hynny, a bod cynifer â 3,414 o eiriau sy'n ymddangos unwaith yn unig yn y Llyfr Mawr. Yn naturiol, mae nifer o'r geiriau hynny yn enwau ar bobl a lleoliadau, ond mae'n rhyfeddol bod bron i chwarter yr holl eiriau sy'n ymddangos yn y Beibl i'w cael yno unwaith yn unig.

Rhoddwyd enw technegol ar y categori arbennig hwn o eiriau – *hapax legomena* – sy'n golygu 'llefarwyd unwaith'. Diléit rhai ysgolorion Beiblaidd ydi mynd ar drywydd y geiriau prin hyn, ac ystyried eu harwyddocâd. Ystyriwch, er enghraifft, y gair "epiousios", a geir yng Ngweddi'r Arglwydd, yn yr ymadrodd "bara beunyddiol." Cyfieithir y gair hwnnw'n aml fel "bob dydd", ond mae union ystyr "epiousios" wedi ennyn chwilfrydedd ysgolheigion ers tro. Mae rhai yn ei ddehongli i olygu "angenrheidiol ar gyfer bodolaeth", tra bod eraill yn awgrymu "ar gyfer y dydd sydd i ddod" neu hyd yn oed "digonol."

Gair arall yn yr un categori yw "monogenes", a geir yn Ioan 3:16 – o bosib yr adnod enwocaf un yn y llyfr cyfan. Cyfieithir y gair hwn yn aml fel "unig-anedig" yn yr ymadrodd "*Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab.*" Mae gan y term hwn oblygiadau diwinyddol sylweddol, gan bwysleisio'r berthynas unigryw ac unigol rhwng Iesu a Duw y Tad.

Mae presenoldeb y geiriau 'unigryw' hyn yn y Beibl yn cyfoethogi amrywiaeth ieithyddol y testun, gan adlewyrchu cyd-destunau hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol amrywiol awduron y Beibl. Maent yn ein hatgoffa nad dogfen undonog yw'r Beibl, ond casgliad cyfoethog o ddeunydd gan wahanol awduron oedd â safbwyntiau a geirfaoedd gwahanol. Mae'r geiriau hynod hyn hefyd yn herio cyfieithwyr ac ysgolheigion i ymchwilio'n ddyfnach i ystyr y testun, gan ysgogi ymchwil fanwl ac ystyriaeth ofalus o'r cyd-destun. Yn wir, gellid dadlau bod amrywiaeth y geiriau unigryw hyn yn awgrymu na chafodd y testunau Beiblaidd eu llyfnhau'n ormodol na'u cysoni'n artiffisial gan olygyddion diweddarach. Yn lle hynny, maent yn cadw nodweddion ieithyddol unigryw eu hawduron gwreiddiol, yn gydnabyddiaeth o'r ffyrdd unigryw sydd gan bawb ohonom, fel plant Duw, o fynegi ein hunain.

Gyda chymorth cyfrol fel *Mynegair i'r Beibl Cymraeg Newydd*, beth am fynd ati i chwilio am un o'r geiriau unigryw hyn, a myfyrio ar ei ystyr, rhag ofn y gwelwn ni rywbeth newydd a dyfnach mewn testunau cyfarwydd rydyn ni wedi eu cymryd yn ganiataol yn rhy hir?





Y LÔN GOED

# Dysgu Cymraeg

## gan **Angharad Tomos**

**Yn ddiweddar** bûm ym mhentref del Abererch, tu allan i Bwllheli (ochr Porthmadog). Yn y **fynwent** yno y claddwyd Robert ap Gwilym Ddu. Fo yw awdur yr emyn fawr, 'Mae'r gwaed a redodd ar y groes'. Os nad ydych wedi **ei chlywed** yn cael ei chanu, yna ewch ar y we yn syth, neu yn well byth, byddwch yn rhan o **gymanfa** neu gynulleidfa lle mae'r emyn yn cael ei chanu yn **angerddol** ar dôn Brynhyfryd.

Robert Williams oedd **enw bedydd** y bardd, a chafodd ei eni ym 1766 yn fferm Betws Fawr yn Eifionydd, ar gwr y Lôn Goed. Yr hanes yw i'w chwaer, Anne Wynne, ofyn iddo a fyddai'n ysgrifennu emyn **addas** i'w chanu mewn oedfa gymun. Fyddwn i ddim yn awgrymu yr emyn hwn fel testun addas i ddysgwyr, ond **mae'n werth i chi roi cynnig arni**. Falle mai ychydig fyddwch chi'n ei ddeall ar y dechrau, ond **daliwch ati**, gan ddod yn gyfarwydd â'r geiriau. Bydd y **ddiwinyddiaeth** yn gyfarwydd i chi!

Byddwch hefyd yn dod yn **gyfarwydd** efo'r odl fewnol:

> Mae'r gwaed a redodd ar y gr*oes*
> O oes i *oes* i'w gofio...

ac yna cewch frawddegau cofiadwy megis...

> rhy fyr yw **tragwyddoldeb** llawn
> i ddweud yn iawn amdano.

Y mae'n emyn **gorfoleddus** sy'n llawn gobaith. Cafodd Robert ap Gwilym Ddu ei siâr o ofidiau. Bu farw ei ferch, Jane Elizabeth, a hithau yn ddim ond 17 oed. Canodd **farwnad** iddi sy'n enwog iawn. Bu farw Robert ei hun ym 1850. Diddorol mai yn Y Gwyliedydd [cylchgrawn eglwysig 1822-37, nid y Gwyliedydd Methodistaidd] y cyhoeddwyd yr emyn hwn am y tro cyntaf, a hynny ym Medi 1823, dros ddau gan mlynedd yn ôl.

**Yn ddiweddar** – recently
**f/mynwent** – cemetery
**g/cymanfa** – singing festival (religious)
**angerddol** – with passion
**enw bedydd** – baptismal name [of Robert ap Gwilym Ddu]
**addas** – appropriate/ suitable
**mae'n werth i chi roi cynnig arni** – it's worth giving it a go
**daliwch ati** – keep at it
**d/diwinyddiaeth** – theology
**g/cyfarwydd** – familiar
**tragwyddoldeb** – eternity
**gorfoleddus** – jubilant
**f/marwnad** – elegy

# O'R LLAN

gan y **Canon Idris Thomas**

# BEDYDD

## WRTH Y BEDYDDFAEN

Fel plant yn yr Eglwys, fe'n dysgwyd bod arwyddocâd arbennig i'r ffaith mai'r bedyddfaen yw y dodrefnyn cyntaf a welir ger y fynedfa wrth ddod i mewn i'r rhan fwyaf o eglwysi. Mae gwneuthuriad y bedyddfaen mewn gwahanol eglwysi yn ddiddorol ac amrywiol iawn, gan adlewyrchu yn aml draddodiad yr ardal. Yn eglwys Trefor ym Mro yr Eifl, er enghraifft, ithfaen oedd y bedyddfaen gan fod chwarel ithfaen gerllaw. Cefais i fy medyddio yn eglwys fach y Santes Fair yn Ninorwig, ac yno roedd y bedyddfaen wedi'i wneud o garreg o Chwarel Dinorwig, un o chwareli llechi agored mwya'r byd.

Gan fod enw pawb a fedyddir yn cael ei gofnodi mewn cofrestr, fe roddir ar gof a chadw wybodaeth bwysig o safbwynt cymdeithasol a hanesyddol yn ogystal â chrefyddol. Bydd y rhieni yn derbyn cerdyn pwrpasol yn gofnod o'r bedydd; arno hefyd bydd y rhieni bedydd yn llofnodi, gan fod iddynt ran bwysig yn y ddefod ac ym mywyd y sawl a fedyddiwyd. Mae tystysgrif fy medydd o'm blaen yma, yn nodi mai ar Dachwedd y 7fed 1948 y'm bedyddiwyd, gan gurad y plwyf ar y pryd sef y Parchg. D. Emrys Jones.

Unwaith fe ddangosais gofnod ei fedydd yn y gofrestr bedyddiadau i ŵr pedwar ugain oed oedd wedi gadael ardal y garreg las gyda'i rieni yn saith mis oed, i fynd i Seland Newydd. Dyma oedd y tro cyntaf iddo ddychwelyd i'w fro enedigol. Aethom ein dau at y bedyddfaen lle cafodd ei fedyddio ac fe wnes i gynnwys y canlynol fel rhan o wasanaeth byr a baratoais –"Yma y cefaist dy wneud yn aelod o braidd Crist flynyddoedd maith yn ôl drwy dy nodi ag arwydd y Groes a dŵr y Bedydd. Ceisiaist gadw yr addewidion a wnaethpwyd ar dy ran gan dy rieni a dy rieni bedydd". Ni wnaf anghofio y foment honno.

Braint i mi fel tad ac offeiriad oedd bedyddio y meibion a hefyd y pedwar ŵyr. Bedyddiais yr ieuengaf o'r wyrion sef Owi Huw yng Nghapel Lôn y Felin yn Llangefni y llynedd a diolchaf i'r addoldy a'r swyddogion am y fraint. Rwy'n hoff iawn o'r llyfr *Cip* sef cyfrol o sgyrsiau a gweddïau myfyrdodol o waith



y Parchg.T.J.Davies a ymddangosodd yn 1982. Yn y myfyrdod 'Bedydd', am ferch fach oedd i'w bedyddio, dyma rai geiriau hyfryd ganddo –

"Dyma hi, Arglwydd,
Yn gwmws fel y cawsom ni hi,
Dyna wych,
Dyna wyrth
Dyna wefr,
Dyna werth.
A dyma ninnau wedi dod â hon
I'r cylch,
I'r cwmni,
I'r cynhesrwydd,
I'r capel.
Wnei di gadw llygad ar y planhigyn tyner yma?
Dyma ni yn ei gosod yn dy ofal".

## DYFARNIAD LLYS

Cefais fy ysgogi i sôn am fedydd yn yr erthygl hon wedi imi ddarllen y pennawd hwn yn y wasg: "Y bedyddfaen i aros ger prif fynedfa'r addoldy yw dyfarniad y Llys". Y llys dan sylw yw'r Llys Consistori neu lys eglwysig yn Esgobaeth Henffordd, a'r addoldy yw Eglwys y Santes Fair yn Almeley. Roeddent wedi gwneud cais i ail-leoli'r bedyddfaen, a oedd yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, o'i safle priodol ger mynedfa'r eglwys. Y bwriad oedd gosod llyfrgell a lle i blant yn y fan honno. Ond dyfarnodd yr Esgobaeth fod y bwriad yn groes i Gyfraith Ganonaidd yr Eglwys a bod y bedyddfaen ar bob cyfrif i aros gerllaw y brif fynedfa.

## AELOD NEWYDD O BRAIDD CRIST

Pan oedd fy ffrind agos y Canon Roger Donaldson yn rheithor ym Mhlwyf Llanbeblig, Caernarfon am rai blynyddoedd, ymddangosai cylchgrawn plwyfol bywiog, difyr a meddylgar iawn ganddo, oedd bob tro yn werth ei ddarllen. Roedd Roger yn meddwl y byd o bobl Caernarfon a hwythau ohono ef. Cofiaf o hyd glasur o erthygl ddifyr ar fedyddio a gyhoeddodd unwaith. Un o'r pethau a ddywedodd oedd bod bedyddio bryd hynny wedi mynd yn hynod boblogaidd yn ei blwyf, gyda 35 o fedyddiadau un flwyddyn. Ei dasg gyntaf ef, meddai, fyddai tawelu a setlo'r gynulleidfa – ar y cyfan mae'r baban yn fwy tawel! Sicrhau wedyn fod y rhieni bedydd yn gwybod beth maent i fod i'w ddweud. Wrth gwrs mae llawer yn swil yn ateb am y ffydd yn gyhoeddus. Weithiau byddai'r bychan yn crio o'r cychwyn cyntaf hyd y fendith olaf! Ambell dro byddai mam yn dweud: "doeddwn i ddim yn rhy siŵr ddylwn i ei fwydo fo neu beidio cyn dŵad". Yn syth ar ôl y bedyddio a derbyn y gannwyll, gofynnir am ddistawrwydd er mwyn gweddïo dros yr aelod newydd o braidd Crist a'r teulu, ac yn raddol daw dyfnder i'r distawrwydd. Wrth gwrs, meddai Roger, bydd yna hen dynnu lluniau ar y diwedd, a chyfle i'r ficer sôn bod angen casgliad i gadw'r Eglwys i fynd – a gwelir caredigrwydd rhyfeddol yn aml.

## PENILLION

Llyfr a drysoraf yn fawr yw *Clychau'r Dalaith* gan Cybi, a ymddangosodd yn nhymor y Garawys, 1927. Ar y clawr, disgrifir ef fel "Llyfr Defosiwn ac Adrodd ar gyfer plant yr Eglwys ac eraill". Swllt oedd ei bris a chafodd ei gyhoeddi gan yr awdur yn Llangybi, Chwilog. Daeth yn gydfuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn 1910. Mae'n cynnwys penillion â'r teitl 'Y Bedydd', wedi eu seilio ar adnod 19 o Bennod 27 yn Efengyl Mathew-"Ewch gan hynny a dysgwch yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy...".

Un o'm hoff emynau bedydd yw'r un gan y Parchedig William Morris yn ei lyfr *Canu Oes,* sydd yn cynnwys y pennill hwn:-

Waredwr Bethlehem,
Hosanna iddo Ef.
Mae Un yn eiriol dros y plant
Ar orsedd wen y Nef.
I harddu coron Crist
Cyflwynwn berlau'r llawr;
Yn llawen deuwn â'n rhai bach
Ar alwad Iesu'n awr"